**Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol**
**WFG 03**
**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
**Ymateb gan: Chwarae Teg**

**Ymateb i Ymgynghoriad Pwyllgor yr Amgylchedd:**

# Egwyddorion Cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

**Awst 2014**

## Cyflwyniad

Nod Chwarae Teg yw cyflawni ein gweledigaeth o Gymru lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda menywod i ehangu gorwelion a meithrin hyder a sgiliau; gweithio gyda chyflogwyr i greu gweithleoedd modern sy'n llwyddo drwy ddefnyddio cyfraniad pawb; a gweithio gyda phobl â dylanwad, addysgwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu cymdeithas sy'n gwerthfawrogi, yn cefnogi ac yn elwa menywod a dynion yn yr un modd.

Mae gwneud datblygu cynaliadwy yn elfen annatod o waith llunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus yn gam pwysig ac mae Chwarae Teg yn croesawu Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Bil") fel modd o wneud hyn. Rydym yn falch o gael ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn ateb y cwestiynau yn y Cylch Gorchwyl yn ein hymateb manwl isod.

**Pwyntiau allweddol**

1. Mae tair agwedd ar Ddatblygu Cynaliadwy: yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd. Rhaid ystyried a thrin y tair yn gyfartal wrth weithredu'r Bil a dylid eu hadlewyrchu yn y Dangosyddion Cenedlaethol.
2. Nid oes gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol ym maes gwneud penderfyniadau yng Nghymru o hyd. Mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng y rhywiau (50% yn fenywod) ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel eu bod yn cynrychioli'n well y cymunedau maent yn eu gwasanaethu.
3. Mae data cadarn yn hollbwysig o ran llywio ac asesu gwaith i gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid dadgyfuno'r data hwn ar sail rhyw i sicrhau bod effaith wahanol y Bil ar ddynion a menywod yn cael ei hystyried ac nad yw gweithredu'r Ddyletswydd yn rhoi'r naill ryw na'r llall o dan anfantais annheg.



www.chwaraeteg.com
Awdur: Natasha Davies

**Ymateb Manwl**

**1. Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn gosod cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach**

1.1. Mae gosod dyletswyddau statudol ar y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus wedi llwyddo i wneud camau gweithredu i fynd i'r afael â materion fel anghydraddoldeb yn rhan annatod o'u gwaith. Mae hyn yn awgrymu y gallai defnyddio dull tebyg mewn perthynas â datblygu cynaliadwy fod yn llwyddiannus hefyd.

1.2. Wrth i'r Bil symud drwy'r broses ddeddfwriaethol mae'n bwysig dysgu arfer gorau o ymarferion blaenorol, fel cyflwyno Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i sicrhau bod y ddyletswydd newydd yn cael ei gweithredu'n hwylus ac yn effeithiol

**2. Egwyddorion cyffredinol y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn:**

2.1. <u>Y "bwriad cyffredin" a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy" a bennir yn y Bil a'r "cyrff cyhoeddus" a nodir</u>

2.1.1. Mae Chwarae Teg yn gweithio i wireddu ein gweledigaeth o Gymru lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu. Gallai deddfu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn mynd ati i "wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru" wneud cyfraniad hollbwysig at wireddu'r weledigaeth hon.

2.1.2. I sicrhau newid sylweddol a pharhaol, rhaid i gynaliadwyedd fod wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus a gwaith llunio polisi felly rydym yn croesawu pennu'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

2.1.3. Dylai'r egwyddorion llywodraethu a restrir yn y Memorandwm Esboniadol helpu cyrff cyhoeddus i roi'r egwyddor ar waith ond bydd angen cymorth, canllawiau a hyfforddiant priodol i'w hategu er mwyn sicrhau eu bod yn ennill eu plwyf ym mhob rhan o'r sefydliad.

2.1.4. Credwn mai'r cyrff cyhoeddus a nodir yw'r rhai cywir ar gyfer y dyletswyddau hyn a **byddem hefyd yn cefnogi camau i annog sefydliadau eraill i fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy er nad oes dyletswydd arnynt i wneud hynny. Gellid defnyddio caffael i gyflawni hyn yn rhannol ond dylid annog arferion da hefyd.**

2.2. <u>Y dull gweithredu o ran gwella llesiant, gan gynnwys pennu nodau llesiant, pennu amcanion llesiant gan gyrff cyhoeddus a'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus</u>

2.2.1. Mae'r nodau llesiant yn y Bil yn rhoi gweledigaeth strategol a all helpu i lywio gwaith cyrff cyhoeddus er mwyn creu Cymru gynaliadwy. Credwn mai'r rhain yw'r nodau cywir, ac mae cysylltiad anorfod rhyngddynt i gyd. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rhaid deall y cysylltiad hwn yn y lle cyntaf er mwyn gallu gweithredu mewn modd integredig. **Mae'n bwysig hefyd fod pob nod yn llawn mor bwysig â'i gilydd er mwyn rhoi sylw i'r tair agwedd ar ddatblygu cynaliadwy**.

2.2.2. Bydd y fframwaith a roddir gan y nodau llesiant yn helpu i roi ffocws i gyrff cyhoeddus wrth iddynt bennu eu hamcanion. Fodd bynnag, **mae angen rhagor o fanylion ynghylch sut beth yw'r nodau hyn "ar lawr gwlad" ac ar gyfer grwpiau gwahanol. Casglwyd y wybodaeth hon fel rhan o ddigwyddiad ymgysylltu y Sgwrs Genedlaethol ac mae'n bwysig ei bod yn parhau i lywio'r Bil wrth iddo symud ymlaen a gwaith y Comisiynydd ar ôl ei benodi.**

2.2.3. Mae angen i'r camau gweithredu y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd fod yn seiliedig ar ddata cynhwysfawr a dibynadwy. Mae angen mynd i'r afael â phroblemau cyfredol gyda data, fel diffyg dadgyfuno ar sail nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal ac amcanion yn cael eu pennu ar sail darlun cywir o angen lleol.

2.3. Y dull gweithredu o ran mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd

2.3.1. Yn ôl yr adroddiad interim yn dilyn y Sgwrs Genedlaethol, mae ymatebwyr o'r farn bod angen set glir o fesurau er mwyn gallu olrhain cynnydd yn erbyn y nodau llesiant yn gywir.

2.3.2. **Mae dangosyddion cenedlaethol wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru i'w croesawu ond dylid gwneud rhagor o waith ymgynghori ac ymgysylltu cyn eu pennu er mwyn canfod sut beth yw cynnydd yn erbyn y nodau hyn i bobl Cymru.**

2.3.3. Yn ôl y Memorandwm, bydd data'n cael ei ddadgyfuno i lefel leol. Mae'n bwysig hefyd ei fod yn cael ei ddadgyfuno fesul grŵp. Rhaid cyflawni cynnydd yn erbyn y nodau ar gyfer pob aelod o'r gymdeithas. Er enghraifft, bydd y newidiadau sydd eu hangen i wneud Cymru'n wlad fwy cyfartal i fenywod yn wahanol i'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar gyfer dynion. **Yr unig ffordd o asesu hyn yn gywir yw drwy gasglu data sydd wedi'i ddadgyfuno ar sail rhyw**.

2.4. Sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru, rôl, pwerau, cyfrifoldebau, llywodraethiant ac atebolrwydd y Comisiynydd

2.4.1. Dylai'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i hwyluso'r gwaith o roi'r dyletswyddau newydd ar waith a bod yn ffynhonnell bwysig o gymorth ac arweiniad i gyrff cyhoeddus.

2.4.2. Bydd **Adroddiad y Comisiynydd** yn ddogfen bwysig a ddylai lywio gwaith Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru. Fel y cyfryw, **dylid ei baratoi drwy ymgysylltu ac ymgynghori gydag amrywiaeth eang o gyrff**. Mae'r Trydydd Sector mewn sefyllfa dda i helpu'r Comisiynydd i ymgysylltu â gwahanol grwpiau, yn enwedig grwpiau sy'n anoddach eu cyrraedd yn draddodiadol. Bydd Chwarae Teg yn barod i helpu yn y dyfodol drwy roi safbwynt yn ymwneud â'r rhywiau i'r Comisiynydd a'i waith.

2.4.3. Dylai **Panel Cynghori'r Comisiynydd** gynnwys arbenigedd ar draws pob un o'r nodau llesiant. Ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos bod gan y nodau "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru lewyrchus" gynrychiolaeth ddigonol ar y grŵp cynghori. **Felly dylid ehangu'r aelodaeth graidd i gynnwys aelod sy'n arbenigo yn yr economi ac un arall sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb**.

2.4.4. Bydd y Comisiynydd ac aelodau ychwanegol y panel yn cael eu penodi drwy'r system penodiadau cyhoeddus. Mae gwaith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r ffaith nad oes digon o fenywod mewn bywyd cyhoeddus. Rydym yn croesawu camau parhaus i gefnogi menywod yn uniongyrchol a sicrhau bod y broses ymgeisio yn niwtral o ran y rhywiau. **Ein gobaith yw gweld gwaith yn y maes hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod swyddi fel y rhai sy'n cael eu creu gan y Bil hwn yr un mor hygyrch i fenywod ag y maent i ddynion**.

2.5. Sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Statudol, asesiadau llesiant lleol a datblygu/gweithredu cynlluniau llesiant lleol

2.5.1. Rydym yn croesawu ymdrechion i wneud gwaith cynllunio cymunedol integredig yn statudol a rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran sicrhau dull cydlynol ac effeithiol o roi cynaliadwyedd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus a gwaith llunio polisi yn lleol yn ogystal ag yn genedlaethol.

2.5.2. Mae gwahodd y trydydd sector i gymryd rhan i'w groesawu hefyd oherwydd, yn aml, dyma'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno safbwyntiau a phrofiadau'r gymuned a grwpiau gwarchodedig. Er y bydd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r Byrddau, byddem yn awgrymu y gallai'r **grŵp elwa hefyd drwy ystyried y cyfraniad y gallai sefydliadau eraill y trydydd sector ei wneud wrth gynrychioli safbwyntiau a phrofiadau grwpiau gwarchodedig.**

2.5.3. Nid oes digon o fenywod mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru o hyd ac o ganlyniad, nid yw gwybodaeth a phrofiad menywod yn dylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau. **Rydym yn argymell y dylid ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

2.5.4. Un o swyddogaethau allweddol y Byrddau fydd paratoi'r asesiad llesiant lleol, sydd â'r nod o roi "dealltwriaeth fanwl o'r anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth". **Felly, cyn paratoi'r asesiad hwn, dylid cynnal ymgynghoriad trylwyr sy'n cynnwys pob grŵp a warchodir, yn enwedig y rhai mwy anodd eu cyrraedd**. Bydd hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn rhoi'r sail dystiolaeth gynhwysfawr sydd ei hangen i lywio gwaith y Byrddau a'r cyrff cyhoeddus lleol.

2.5.5. Mae'n bwysig hefyd fod gwersi'n cael eu dysgu o'r gwaith o gyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel bod modd osgoi problemau sy'n ymwneud â chysondeb a data annigonol.

2.5.6. O dan gynlluniau cyfredol, bydd y Byrddau'n sefydlu eu systemau rheoli perfformiad eu hunain. Mae'n bwysig bod y mesurau perfformiad sy'n cael eu pennu gan Fyrddau yn gyson ledled Cymru ac yn seiliedig ar y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae hyn yn atsain ein pwynt cynharach am yr angen am set glir o fesurau i asesu cynnydd.

**3. Pa mor effeithiol y mae'r Bil yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru o ran datblygu cynaliadwy**

3.1. O dan Rio+2020 mae Gwladwriaethau yn ymrwymo i sicrhau eu bod yn hyrwyddo dyfodol cynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol ar gyfer ein planed ac ar gyfer cenedlaethau heddiw a fory.



www.chwaraeteg.com
Awdur: Natasha Davies

Nod y Bil yw sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn arddel yr ymrwymiad hwn ac mae hyn i'w groesawu.

3.2. Mae'r ddogfen "The Future We Want" a baratowyd ar ôl Rio+2020 yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb rhywiol a grymuso menywod fel rhan o ddatblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn datgan yr angen i i gyflawni datblygu cynaliadwy drwy hybu twf cynhwysol a pharhaus, lleihau anghydraddoldeb a chreu rhagor o gyfleoedd i bawb. Er mwyn i'r Bil gyflawni hyn **mae'n bwysig ystyried y ffyrdd gwahanol y mae dynion a menywod yn ymwneud â'r amgylchedd, y farchnad lafur a gwasanaethau cyhoeddus eraill**.

3.3. Er enghraifft, mae menywod yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a bod yn gyfrifol am ddyletswyddau amgylcheddol y cartref, fel ailgylchu.

3.4. Mae menywod hefyd yn parhau i weithio islaw na'u potensial mewn swyddi rhan-amser, cyflog isel ac maent yn wynebu rhwystrau o bob math wrth geisio cael gwaith a chamu ymlaen yn y gweithle. Ni all Cymru fod yn fwy cyfartal nac yn fwy llewyrchus oni bai bod menywod yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi ac at gymdeithas. **O'r herwydd, dylai camau i helpu menywod i gyflawni a ffynnu fod yn elfen allweddol o waith i gyflawni'r nodau llesiant yn y Bil**.

## 4. Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried

4.1. Gallai'r nodau llesiant yn y Bil, o'u cyflawni, gael effaith sylweddol ar Gymru yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol, ond ni fyddant yn cael eu cyflawni oni bai bod pob corff cyhoeddus yn rhoi'r un faint o flaenoriaeth i'r dyletswyddau newydd. Felly **rhaid i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei gweithredu yn yr un modd ym mhob ardal Awdurdod Lleol fod yn flaenoriaeth.**

4.2. Gallai'r lleihad mewn cyllidebau fod yn rhwystr hefyd. Bydd y dyletswyddau yn y Bil yn gofyn am gryn dipyn o waith, yn enwedig ar ran Awdurdodau lleol. Mae'n bosibl y bydd rhai yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r hyn sydd ei angen heb adnoddau ychwanegol.

4.3. **Dylid ystyried effaith bosibl Adroddiad Comisiwn Williams hefyd**. Er nad yw canlyniad yr adroddiad hwn yn glir eto, bydd yn effeithio ar y gwaith o weithredu'r Bil ac felly dylid ei ystyried wrth i'r ddeddfwriaeth symud yn ei blaen.

4.4. Gallai ansawdd y data sydd ar gael fod yn rhwystr hefyd. Mae sail dystiolaeth gadarn yn hanfodol er mwyn asesu llesiant ac olrhain cynnydd yn effeithiol. **Rhaid i'r data a ddefnyddir i lywio gwaith cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn gynhwysfawr a bod wedi'i ddadgyfuno ar sail nodweddion gwarchodedig**.

## 5. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil

5.1. Fel yr amlinellir uchod, mae menywod yn ymwneud â'r farchnad lafur, yr amgylchedd a chymdeithas yn wahanol i ddynion ac, o ganlyniad, bydd y Bil hwn yn cael effaith wahanol arnynt. Bydd y camau sydd eu hangen i gyflawni'r Nodau Llesiant ar gyfer dynion a menywod yn wahanol hefyd yn sgil hyn.



www.chwaraeteg.com
Awdur: Natasha Davies

5.2. Rhaid i'r gwahaniaethau hyn lywio hynt y Bil a datblygiad Dangosyddion Cenedlaethol. Mae'n hanfodol hefyd fod cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal asesiadau trylwyr o'r effaith ar gydraddoldeb wrth iddynt ddatblygu cynlluniau ac amcanion llesiant i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn elwa ar weithredu'r Bil.

## Casgliad

Mae Chwarae Teg yn croesawu'r Bil hwn fel rhan o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i wneud datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith cyrff cyhoeddus a llunio polisi. Wrth i'r Bil symud yn ei flaen, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ym mhob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pawb.

Mae'n hanfodol bod yr un faint o bwys yn cael ei roi ar y tair agwedd ar ddatblygu cynaliadwy; cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, a bod yr effaith wahanol y gallai'r Bil ei chael ar ddynion a menywod yn cael ei hystyried gydol y broses ddeddfwriaethol. Os digwydd hyn, gallai'r Bil wneud cyfraniad hollbwysig at adeiladu Cymru lle mae menywod yn gallu cyflawni a ffynnu.

## Argymhellion

**Dyma'n hargymhellion:**

1. Dylai cyrff nad ydynt yn destun y ddyletswydd gael eu cynorthwyo i fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy a dylid edrych ar gyfraniad caffael at gyflawni hyn.

2. Dylid pennu Dangosyddion Cenedlaethol ar ôl gwaith ymgynghori ac ymgysylltu pellach i weld sut beth yw cynnydd yn erbyn y nodau hyn i bobl Cymru.

3. Rhaid i ddata sy'n cael ei gasglu i lywio amcanion a chynlluniau llesiant ac i asesu cynnydd yn erbyn y nodau llesiant gael ei ddadgyfuno ar sail rhyw.

4. Dylid ehangu aelodaeth graidd Panel Cynghori'r Comisiynydd i gynnwys aelod sy'n arbenigo ar yr economi ac un arall sy'n arbenigo ar gydraddoldeb.

5. Dylid gwneud penodiadau cyhoeddus i swydd y Comisiynydd ac i'r Panel Cynghori mewn modd sy'n niwtral o ran y rhywiau.

6. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

7. Dylid ystyried cynnwys sefydliadau'r trydydd sector heblaw Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau ac arbenigedd yn gallu llywio gwaith y Bwrdd.

8. Dylai ymgynghori ac ymgysylltu, yn enwedig gyda grwpiau anodd eu cyrraedd, fod yn rhan allweddol o waith i greu asesiad o lesiant lleol.

---

Byddai Chwarae Teg yn barod i drafod unrhyw elfen o'r uchod yn fanylach. Cysylltwch â:

Natasha Davies
**Partner Polisi**

Natasha.davies@chwaraeteg.com
02920 478900